

# Cyfarwyddyd ar storio plaladdwyr ar gyfer ffermwyr a defnyddwyr proffesiynol eraill

## Taflen wybodaeth yr HSE

### Cyflwyniad

Mae'r daflen wybodaeth hon yn darparu cyfarwyddyd i ddefnyddwyr proffesiynol o blaladdwyr ar safonau addas i'w storio. Bydd yn helpu defnyddwyr proffesiynol i gwrdd â'u dyletswyddau o dan ddeddfwriaeth berthnasol ynghylch plaladdwyr. Mae'n cynnwys cyngor ar:

- storfeydd gosod, gan gynnwys storfeydd pwrpasol, adeiladau presennol addasedig neu rannau o adeiladau presennol a storfeydd graddfa-fach mewn cabinetau, cistiau ac ati;
- storfeydd symudol yn darparu storfeydd tymor byr i ffwrdd o'r cartref mewn cerbydau, ar danceri a chwistrellwyr ac ati;
- storio meintiau bach o blaladdwyr neilltuol y mae eu priodoleddau cemegol peryglus yn golygu bod rhaid cymryd rhagofalon ychwanegol.

Nid yw'n cynnwys storio methyl bromid, storio plaladdwyr gan gyflenwyr (gan gynnwys contractwyr sy'n cyflenwi plaladdwyr), na'r cludiant o blaladdwyr o gyflenwyr i'r defnyddiwr pen y daith. Os ydych yn cynnal unrhyw un o'r gweithgareddau hyn dylech ymgynghori â'r *Cod Ymarfer ar gyfer cyflenwyr plaladdwyr i amaethyddiaeth, garddwriaeth a choedwigaeth* gan DEFRA (y Cod Melyn).

Os ydych yn storio plaladdwyr fflamadwy fel cynhyrchion gwrth-faeddu, cyfeiriwch at lyfryn cyfarwyddyd yr HSE Storio hylifon fflamadwy mewn cynhwyswyr.

At ddibenion y daflen wybodaeth hon mae 'defnyddiwr proffesiynol' yn golygu unrhyw unigolyn sy'n defnyddio plaladdwyr fel rhan o'u busnes neu fenter, ai fel cyflogwr neu fel unigolyn hunan-gyflogedig.

### Storfeydd gosod

#### Beth yw eich anghenion ynghylch storio?

#### Maint

- Mae angen i'r storfa fod yn ddigon mawr i ddal eich gofynion brig ynghylch plaladdwyr, unrhyw gynhwyswyr a ddefnyddiwyd yn rhannol, a rhaid iddi allu ymdopi â stoc yn cael ei ddal drosodd oherwydd tywydd gwael.

## Taflen Wybodaeth Amaethyddiaeth Rhif 16 (ad 1)

- Cyfrifwch y cyfanswm tebygol o stociau i'w dal ar unrhyw adeg benodol - cynhwyswch blaladdwyr fel peledi gwllithod, gwenwyn llygod a chynhyrchion i drin pren.
- Gwiriwch a oes angen ichi wneud darpariaeth ychwanegol ar gyfer storio unrhyw un o'r dosbarthiadau arbennig o blaladdwyr a restrir ar ddiwedd y cyfarwyddyd hwn.
- Ystyriwch yr angen i storio cemegau eraill a allai fod yn niweidiol a chaniatáu am feintiau tebygol.
- Darparwch ddigon o ofod storio ar gyfer cynhwyswyr gwag a rinsiwyd sy'n aros i'w gwaredu.
- Gwiriwch ba gyfleusterau eraill y gallai fod arnoch angen eu darparu (e.e. lle i storio cyfarpar halogedig, cyfarpar diogelwch personol, cyfleusterau ymolchi ac ati) trwy ddarllen y cod ymarfer sy'n berthnasol i'ch gwaith gyda phlaladdwyr (gweler 'Darllen pellach').
- Cofiwch, os yw'r storfa'n rhy fach mae'n golygu bod staff yn gweithio mewn amodau cyfyng, yn aml yn gorfod symud un cynnyrch er mwyn cael un arall.

### Lleoliad

Cyn creu gofod storio newydd, gwiriwch gydag:

- adran gynllunio'ch awdurdod lleol - mae'n bosibl y byddwch angen caniatâd cynllunio ar gyfer eich storfa;
- Asiantaeth yr Amgylchedd (EA), neu yn yr Alban y Scottish Environment Protection Agency (SEPA). Efallai eich bod mewn 'ardal amgylcheddol sensitif' fel parth gwarchod dŵr daear neu i fyny'r afon o ddalgyloedd cyflenwad dŵr.

Lleolwch eich storfa i ffwrdd o ardaloedd sy'n cyflwyno perygl o dân ac o leiaf pedwar metr i ffwrdd o:

- gwair, gwellt, diesel, olewau, paentiau, gwrteithiau, papur, staciau pren, cynhwyswyr nwy a deunyddiau llosgadwy eraill;
- anheddau domestig neu bethau a allai gynnau tân fel sychwyr graen neu weithgareddau asio/rhygnu.'

Gwiriwch ble fydd unrhyw dŵr ar gyfer diffodd tân yn traenio a:

- peidiwch â lleoli storfeydd ger treiniau, cyrsiau dŵr, ffynhonnau a thyllau turio, nag ardaloedd â thuedd i ddioddef llifogydd

Helpwch i warchod yn erbyn niwed i bobl, iechyd anifeiliaid a'r amgylchedd.

Sicrhewch:

- nas lleolir storfeydd cabinet mewn anheddau, manau adwerthu, ystafelloedd staff, swyddfeydd neu ardaloedd lle mae bwyd pobl neu anifeiliaid yn cael ei storio neu brosesu;
- nad yw mynediad i storfa plaladdwyr o fewn adeilad mwy drwy'r fath ardaloedd;
- bod yr holl staff yn gwybod beth i'w wneud os digwydd gorlif o gemegau neu dân;
- bod mynediad rhwydd ar gyfer danfoniadau plaladdwyr neu'r gwasanaethau brys.

Os bydd digwyddiad, cynhwyswch ac amsugno unrhyw orlif gyda deunyddiau amsugol swrth neu dywod. Gwaredwch ddeunydd neu hylifon halogedig yn ddiogel ar ôl ceisio cyngor gan EA neu SEPA.

## **Adeiledd**

Eich nod yw darparu storfa sy'n gwrthsefyll tân, sy'n gallu dal gollyngiad/gorlif (e.e. pe byddai cynhwyswyr yn toddi mewn tân), sy'n sych, rhydd rhag rhew, a awyrr yn ddigonol, a sy'n ddiogel rhag mynediad heb awdurdod. Ystyriwch y ffactorau dilynol:

### **Egwyddorion cyffredinol sy'n gymwys i bob storfa**

- Dylai'r storfa, gan gynnwys unrhyw ddrysau ond nid y to, gael ei wneud o ddeunyddiau a fydd yn gwrthsefyll tân am 30 munud neu'n hwy.
- Dylai'r storfa, neu'r ardal mae'r storfa wedi'i lleoli ynddi, allu dal gollyngiad neu orlif hyd at faint o 110% o gyfanswm y cynhyrchion sy'n debygol o gael eu storio (185% os ydych mewn 'ardal amgylcheddol sensitif'). Bwndio yw'r ffordd fwyaf arferol o gyflawni hyn.
- Dylai'r bwnd fod wedi'i adeiladu'n gadarn o ddeunyddiau nad ydynt yn fregus sy'n gwrthsefyll treiddio gan hylifau, e.e. metel (nid ffoil), concrid, briciau, slabiau cerrig a chynhyrchion concrid. Mae'n bosibl y bydd angen rendro neu selio'r deunyddiau adeiladu, yn arbennig ar uniadau.
- Dylai'r bwnd gynnwys, neu ymestyn o gwmpas, holl ymylon y storfa, ac ni ddylai gael ei beryglu gan, er enghraifft, fynedfeydd ac allanfeydd, neu agoriadau lle mae gwasanaethau'n dod i mewn i'r storfa.
- Gellir cyflawni bwndio trwy osod eich plaladdwyr o fewn cynhwysydd metel o faint digonol, e.e. hen danc dŵr. Cyn newid unrhyw danc storio er

mwyn ffurfio storfa neu fwnd, sicrhewch ei fod yn addas a heb ei halogi ac y gwaredir hylifau/nwyon fflamadwy. Sicrhewch fod drysau/ cloriau a ffenestri'n darparu digon o ddiogelwch ac y'i cedwir ar glo neu'n ddiogel fel arall pan nas defnyddir.

- Osgowch gael cyflenwad dŵr yn pasio trwy'r ardal a fwndir.
- Dylai'r storfa ei hunan, neu'r ardal y mae'n sefyll ynddi, fod â tho.

### **Adeiladau pwrpasol**

Cofiwch yr egwyddorion cyffredinol a sylwer:

- adeiladir byndiau orau fel rhan integrol o'r sylfeini, llawr a waliau ac wedi'u suddo o dan lefel y tir;
- lle caiff rampiau eu gosod ar gyfer trafod plaladdwyr gyda fforch godi, dylai eu llethr fod yn ddigon graddol i osgoi ansefydlogi'r llwyth (e.e. llethr < 5°)

### **Trosi strwythurau presennol - adeiladau ar wahân**

Sicrhewch fod yr adeilad/ardal rydych wedi'i ddewis yn diwallu'r egwyddorion cyffredinol a:

- symudwch deunyddiau llosgadwy;
- crëwch fwnd seliedig;
- seliwch ddraeniau mewnl.

### **Trosi strwythurau presennol - storfeydd o fewn adeiladau mwy**

Gwnewch yr un peth ag ar gyfer adeiladau ar wahân, a'r dilynol hefyd:

- lle mae'n bosibl, dylai mynedfa'r storfa agor yn union i'r tu allan i'r adeilad;
- mae storfeydd o'r math cawell yn dderbyniol dim ond lle mae adeiledd y storfa a'r adeilad y lleolir y storfa ynddo yn cwrdd â'r egwyddorion cyffredinol, gan gynnwys bwndio;
- cofiwch fod tân yn lledaenu'n aml trwy ofod y to - ystyriwch yr angen am waliau i wrthsefyll tân sy'n ymestyn hyd at y to.

### **Trosi strwythurau presennol - cyrff lorïau, cyhwyswyr danfon ac ati**

Cofiwch yr egwyddorion cyffredinol a:

- peidiwch â defnyddio cyrff lorïau gyda llorïau neu ochrau pren;
- crëwch fwndio trwy osod sil ar draws y drws neu drwy ogwyddo'r storfa i ffwrdd o'r fynedfa. Sicrhewch nad oes pibellau awyro lefel-isel;
- gwiriwch ar ysbeidiau rheolaidd nad yw uniadau wal-i-lawr wedi gwaethygu.

## Storfeydd cabinet/bin/cist

Cofiwch yr egwyddorion cyffredinol a:

- sylwer bod cabinetau perchenogol pwrpasol ar gael ar gyfer storio plaladdwyr;
- gwiriwch y cyngor yn yr adran 'Lleoliad' a sirhewch fod eich storfa'n gadarn ac wedi'i lleoli'n iawn i ffwrdd o draffig;
- safwch rhewgelloedd cist gyda leininau mewnol ffoil neu blastig o fewn ardal a fwndir;
- ffitiwch gabinetau metel gyda bwnd mewnol neu safwch nhw o fewn ardal a fwndir;
- sirhewch fod pob cabinet ac ati yn ddiogel neu leolwch nhw mewn ardal ddiogel.

## Trefnu'ch storfa

- Marciwch wal allanol y storfa (a ble mae wedi'i lleoli o fewn adeilad mwy, wal allanol yr adeilad) gyda'r arwydd cyffredinol ynghylch rhybudd o berygl (gweler y diagram)



- Rhowch arwyddion gwaharddol 'Dim Ysmygu' neu 'Gwaharddir Ysmygu a Fflamau Noeth' (gweler y diagramau) ar ddrws allanol y storfa.



- Darparwch silffoedd digonol fel y gall staff weld cynhyrchion.
- Storiwch bowdrau uwchben hylifau (gall hylifau ollwng os y niweidir cynhwyswyr).
- Darparwch oleuadau digonol fel y gallwch ddarllen y labeli.
- Gwarchodwch stociau yn erbyn rhew - nid yw gwresogwyr olew neu nwy na chyfarpar trydanol gydag elfennau agored yn addas.
- Osgowch storio cynhwyswyr plastig mewn heulwen uniongyrchol - cysgodwch ffenestri os oes angen.
- Os defnyddir paledi i gadw stociau oddi ar y llawr, sicrhewch nad ydynt yn cyflwyno perygl maglu a bod y capasiti bwndio'n aros yn ddigonol.

- Lagiwch bibellau dŵr.
- Darparwch frwsh, rhaw, gronynnau amsugol/tywod a chynhwysydd anhaidraidd i ddelio ag unrhyw orlif neu farilau/pecynnau sy'n gollwng.
- Ymarferwch reolaeth storfa dda trwy sicrhau y tynnir deunydd pacio cardbord gwastraff i ffwrdd, y defnyddir hen stociau, y gwaredir cynhwyswyr wedi'u niweidio neu sy'n gwaethygu ac y cedwir cofnod cyffredol o stoc (i ffwrdd o'r storfa).
- Trefnwch fod cofnod stoc cywir ar gael yn ogystal â rhifau ffôn defnyddiol, gan gynnwys eich gwasanaeth tân lleol ac EA (neu SEPA yn yr Alban).

## Storio symudol

Mae'r cyfarwyddyd hwn yn gymwys i storio, fel arfer am lai na chyfnodau 24 awr, mewn cerbydau, tanceri dŵr a chwistrellwyr sy'n derbyn stoc o storfa sefydlog.

Dylech sicrhau bod yr holl blaladdwyr yn cael eu cludo'n ddiogel i'r safle gweithredu a'u bod yn cael eu storio'n ddiogel ar y safle.

Peidiwch **byth** â chludo plaladdwyr mewn cabiau tractorau, chwistrellwyr sy'n eu gyrru eu hunain na cherbydau eraill, ac ystyriwch y pwyntiau allweddol dilynol cyn ichi gludo plaladdwyr tewychedig i safle gweithredu:

- Defnyddiwch gerbyd gyda phared o'r llawr i'r nenfwd rhwng y cab i'r gyrrwr/teithiwr a man y llwyth.
- Lle nad oes pared gan y cerbyd, gosodwch gynhwyswyr diogel ar gyfer cemegau neu ddarparwch gabinet diogel wedi'i osod ar ochr allanol y cerbyd neu ar ôl-gerbyd.
- Gwiriwch fod yr ardal ar gyfer cludo llwyth yn rhydd rhag bargodiadau a allai niweidio cynhwyswyr.
- Marciwch yr ardal ar gyfer cludo llwyth gyda'r arwydd cyffredinol ynghylch rhybudd perygl.

Pan ydych i ffwrdd o'ch storfa osod, dylid cadw plaladdwyr yn ddiogel yn erbyn mynediad heb awdurdod drwy'r amser:

- Parciwch eich storfa symudol i ffwrdd o unrhyw leoliad lle gallai llygredd dŵr ddigwydd.
- Ceisiwch weithio o fewn golwg eich storfa symudol - yn arbennig mewn ardaloedd lle gallai'r cyhoedd gael mynediad.
- Clôwch y cabinet neu gerbyd pan nad oes rhywun yno.

Ar ddiwedd y gwaith:

- gwiriwch fod cloriau/capiau ar unrhyw gynhyrchion a ddefnyddwyd yn rhannol yn ddiogel cyn y daith yn ôl i'r storfa osod;
- sicrhewch eich bod yn mynd â'r holl gynhwyswyr gwag, deunydd pacio a chyfarpar arall yn ôl i'ch storfa ar gyfer eitemau gwag.

- dychwelwch bladdwyr nas defnyddiwyd i'ch storfa osod.

## Rhagofalon ychwanegol ar gyfer dosbarthiadau arbennig o bladdwyr

Mae'r cyfarwyddyd yn yr adran hon yn delio â meintiau y gellir eu storio'n ddiogel mewn cabinetau, cistiau a biniau yn unig. Mae priodoleddau cemegol peryglus pladdwyr penodol yn golygu bod rhaid cymryd mesurau ychwanegol er mwyn eu storio'n ddiogel. Gwiriwch i weld a ydych yn storio unrhyw un o'r dilynol:

### Cyfansoddion nwyo a weithredir gan leithder

Mae pobl wedi marw o ganlyniad i gadw'r cyfansoddion hyn yn wael mewn storfeydd gosod ac wrth eu cludo. Yn arbennig, gall defnyddio dŵr i ymladd tân gyflwyno perygl sylweddol i'r gwasanaethau brys. Yn eich storfa osod, darparwch gabinet storio ar wahân a ddylai fod:

- wedi'i wneud o fetel neu ddeunyddiau sy'n gwrthsefyll tân;
- wedi'i leoli uwch ben lefel bwndio'r storfa ac i ffwrdd o heulwen uniongyrchol a ffynonellau gwres;
- wedi'i ddarparu â sefydlogrwydd digonol, e.e. trwy ei foltio i'r wal;
- wedi'i farcio 'Cyfansawdd Nwyo - Peidiwch â defnyddio dŵr'.

Yn ystod cludiant, lleihewch y perygl o ddatguddiad os digwydd damwain trwy:

- storio cyfansoddion nwyo mewn cynhwysydd gwrth-darth ar wahân o fewn gofod y llwyth;
- darparu rhyw fodd o glymu'r cynhwysydd yng ngofod y llwyth, e.e. ffrâm wedi'i bolltio i'r strwythur y gellir strapio'r cynhwysydd ynddo.

### Plaladdwyr a farcir 'Cyfrwng Ocsideiddio' - fel sodiwm clorad

Wrth gael eu gwresogi, mae cyfryngau ocsideiddio'n cynhyrchu meintiau mawr o ocsigen a all gynyddu lledaeniad tân yn gyflym. Mae meintiau mawr angen storfa sydd yn gwbl ar wahân. Fodd bynnag, gellir cadw hyd at 10cg yn eich storfa os yw'n cael ei gadw mewn cynhwysydd sych, sy'n gwrthsefyll tân, i ffwrdd o ffynonellau gwres a phlaladdwyr eraill.

## Darllen pellach

*Code of Practice for suppliers of pesticides to agriculture, horticulture and forestry* PB3529 DEFRA 1998 (the Yellow Code) [www.pesticides.gov.uk](http://www.pesticides.gov.uk)

*Code of practice for using plant protection products* PB11090 DEFRA 2006 ISBN 0855211709 [www.pesticides.gov.uk](http://www.pesticides.gov.uk)

*The storage of flammable liquids in containers* HSG51 (Second edition) HSE Books 1998 ISBN 978 0 7176 1471 4 [www.hse.gov.uk/pubns/books/hsg51.htm](http://www.hse.gov.uk/pubns/books/hsg51.htm)

## Gwybodaeth bellach

I weld gwybodaeth ynghylch iechyd a diogelwch, neu i adrodd anghysondebau neu anghywirdebau yn y cyfarwyddyd hwn, ewch i [www.hse.gov.uk](http://www.hse.gov.uk). Gallwch weld cyfarwyddyd yr HSE ar-lein ac archebu cyhoeddiadau prisiedig o'r wefan. Hefyd mae cyhoeddiadau prisiedig yr HSE ar gael gan siopau llyfrau.

**Mae'r ddogfen hon yn cynnwys nodiadau ar arfer da nad ydynt yn orfodol ond a allai fod o gymorth ichi wrth ystyried yr hyn mae angen ichi ei wneud.**

Mae'r ddogfen hon ar gael ar [www.hse.gov.uk/pubns/ais16w.htm](http://www.hse.gov.uk/pubns/ais16w.htm)

© © *Hawlfraint y Goron* 2012. Os ydych yn dymuno aildefnyddio'r wybodaeth hon ewch i [www.hse.gov.uk/copyright.htm](http://www.hse.gov.uk/copyright.htm) i manylion. Cyhoeddiad cyntaf 08/12